

SAUNDERS, WILLIAM (1871 - 1950), gweinidog (B) ac addysgwr

Enw: William Saunders
Dyddiad geni: 1871
Dyddiad marw: 1950
Priod: Jane Saunders
Plentyn: Eluned Saunders
Rhiant: Ann Saunders (née Thomas)
Rhiant: Thomas Saunders
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (B) ac addysgwr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 24 Mai 1871 yn fab i Thomas Saunders ac Ann (ganwyd Thomas), 5 John St., Aberdâr, Morgannwg, ond symudodd y teulu'n fuan wedi hynny i bentref cyfagos Abercwmboi lle'r oedd ei dad-cu o du ei fam yn aelod blaenllaw gyda'r Bedyddwyr, ac yno y bedyddiwyd ef yn 1883. Symudodd y teulu eilwaith yn 1887 i Ynys-y-b I ac yno y dechreuodd William Saunders bregethu yn 1890. Addysgwyd ef yn Academi Pontypridd, ac yn 1892 aeth i goleg y Bedyddwyr yn Hwlfordd ac Aberystwyth cyn mynd yn weinidog ar Eglwys Jeriwsalem, Rhymni (1895-99), Carmel (Saesneg), Tredegar Newydd (1899-1901), a Noddfa, Pontycymer, lle y bu am 44 blynedd. Daeth yn boblogaidd ar unwaith, gan ddangos yn gynnar ei allu i gymodi carfannau gwrthwynebus. Yr oedd nid yn unig yn bregethwr huawdl a nerthol, yn gymdeithaswr difyr a chynadledwr dihafal, ond bu'n weithgar tuhwnt gydag amryw fudiadau crefyddol a lleig. Bu'n ysgrifennydd Undeb Ysgolion Sul Mynwy, Undeb Bedyddwyr Ieuainc Cymru, a Chymanfa Bedyddwyr Neilltuol Morgannwg am dros 15 mlynedd. Bu ar gyngor Sir Morgannwg am flynyddoedd maith (1908-50) gan ddod yn gadeirydd y Cyngor am ddwy fl. a chadeirydd pwyllgor addysg elfennol y sir. Am ei wasanaeth i addysg cyflwynodd Prifysgol Cymru iddo radd LL.D. er anrhydedd yn 1946. Bu iddo ef a'i wraig Jane ferch a oedd yn feddyg yn Llundain. Bu farw 2 Mai 1950 a chladdwyd ef ym mynwent Pontycymer.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru, 1951, 173

Baptist Handbook, 1951, 361

Seren Gomer, 1950, 117

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20804834](https://www.wikidata.org/wiki/Q20804834)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

